Cofnodion cyfarfod ar-lein y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 19 Chwefror 2025, yn dechrau am 6.00pm.

**<u>PRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Ms R. S. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**115. <u>DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU</u>**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Miss S. Fleming a W. Price.

Manteisiodd y Maer ar y cyfle i atgoffa'r aelodau i roi ateb i'r swyddfa o ran ei digwyddiad elusennol.

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad i'r aelodau ynghylch y prosiect ffotograffiaeth arfaethedig gan Mr David Baker. Byddai Mr Baker yn cael ei wahodd i'r siambr yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth i drafod y prosiect, ac os yn briodol, i gyflawni'r gwaith.

**116. <u>DATGAN BUDDIANNAU</u>**

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghswllt unrhyw eitem fusnes i'w hystyried ar yr agenda?

Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol yn eitem agenda rhif 5 (Digwyddiadau yn y Rhyl 2025/26) oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

Datganodd y Cynghorydd B. Mellor fuddiant personol yn eitem agenda rhif 15 (Ymgynghoriad ar y Strategaeth Toiledau Lleol), oherwydd bod toiledau cyhoeddus yn rhai o'i bortffolio fel aelod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ac eitem agenda rhif 18 (Grŵp Cyswllt y Rhyl), oherwydd ei swydd fel Cadeirydd Grŵp Cyswllt y Rhyl.

Datganodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE fuddiant personol yn eitem agenda 5 (Digwyddiadau yn y Rhyl 2025/26) oherwydd ei bod yn aelod o Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Ddinbych sy'n goruchwylio Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

**117. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a'i bwyllgor a ganlyn i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15 Ionawr 2025 - Cofnodion rhifau 104-114

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 15 Ionawr 2025 - Cofnodion rhifau 42-45

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**118. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**119. DIGWYDDIADAU YN Y RHYL 2025/26**

Ymhellach i gofnod rhif 75 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024, adroddodd Clerc y Dref yn anffodus nad oedd Mr Groves yn medru bod yn bresennol yn y byddai Mr Hughes yn ymuno gyda ni fel y trefnwyd, i fynd drwy gynigion digwyddiadau Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar gyfer 2025/26, mewn cyfrinachedd, yn cynnwys y costau i'r Cyngor Tref eu hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhaglen ddigwyddiadau arfaethedig.*

**120. SESIWN AGORED**

Parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored nad oedd yn gyfrinachol.

**121. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion digwyddiadau y bu'r Dirprwy Faer yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf, gan nad oedd hi wedi medru mynd iddynt, yn anffodus.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faery n benodol at Gyfres Cyngerdd Rhyngwladol Gogledd Cymru Clwb Cerddoriaeth y Rhyl yn Neuadd y Dref, a'i fod wedi gwneud argraff arno a'i fod wedi'i fwynhau'n fawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**122. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1949 | BT | 566.79 | Llogi'r llinellau ffôn a ffioedd ffôn |
| 1950 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| 1953 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,666.52 | Cyflogau net mis Ionawr 2025 |
| 1951 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,104.36 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Rhagfyr 2024 |
| 1952 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,269.74 | Didyniadau pensiwn – mis Rhagfyr 2024 |
| 1848 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliadau 10 of 2 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 811.00 | Ardrethi annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 10 o 10 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1962 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 3 o 3 ar gyfer 2024/25 |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£49,708.72** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 259.89 |
| WPS James Hallam Insurance | Ad-daliad y premiwm ar y newidiadau i'r polisi yswiriant | 186.06 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis a aeddfedodd ar 23 Rhagfyr Dec 2024 | 703.56 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Hawliad Treth ar Werth Chwarter 3, mis Hydref – mis Rhagfyr 2024 | 1,442.99 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£2,843.15** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**123. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1964 | Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Chwarter 3 – mis Hydref – mis Rhagfyr 2024 | 108.00 |
| 1965 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Lwfans y Maer 24/25 – taliad 3 o 3 | 433.33 |
| 1966 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Lwfans Uwch Swydd 24/25 – taliad 3 o 3 | 166.66 |
| 1967 | Y Cynghorydd A. Walker | Lwfans y Dirprwy Faer 24/25 – taliad 3 o 3 | 133.32 |
| 1968 | Y Cynghorydd A. Walker | Lwfans Uwch Swydd 24/25 – taliad 3 o 3 | 166.66 |
| 1969 | Cyngor Sir Ddinbych | Tâl gwasanaeth Canolfan | 5,483.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gymuned Ffordd Wellington, mis Ebrill – mis Rhagfyr 2024 | |
| 1970 | JDH Business Services Ltd | Ffi Archwilio Interim 2024/25 | 465.60 |
| 1971 | Canda Copying Ltd | Prydlesu'r llungopïwr | 259.32 |
| 1972 | Canda Copying Ltd | Ffioedd y llungopïwr | 250.72 |
| 1973 | Delwedd Ltd | Lletya'r wefan a gwaith cynnal a chadw'r wefan | 828.17 |
| 1974 | Cyngor Tref Treffynnon | Un tocyn i'r ddawns elusennol ar 1 Mawrth 2025 | 28.00 |
| 1975 | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Ffi blynyddol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | 47.00 |
| 1976 | RNLI | Dau docyn i'r Ginioa'r Criw ar 21 Chwefror 2025 | 70.00 |
| 1980 | Sandra Williams | Gwasanaethau cyfieithu | 128.17 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£8,567.95** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**124. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2024/25: CHWARTER 3 – MIS EBRILL – MIS RHAGFYR 2024**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a chael £16,400 mewn llog, £12,400 yn fwy na'r disgwyl, diolch i'r Swyddog Cyllid.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**125. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31 RHAGFYR 2024 A RHAGOLYGON BLWYDDYN ARIANNOL 2024/25**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dangos y perfformiad yn erbyn y gyllideb, a oedd yn edrych yn iach ar hyn o bryd. Dim problemau i hysbysu'r aelodau amdanynt.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**126. ADRODDIAD INTERIM YR ARCHWILYDD MEWNOL 2024/25**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) gydag un argymhelliad yn unig gan archwilydd mewnol y Cyngor Tref, sef adolygu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y Cyngor yn flynyddol.

Argymhellodd Clerc y Dref drosglwyddo hyn i'w ystyried yn fanylach gan yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau.

***PENDERFYNWYD*** *trosglwyddo'r mater i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau.*

**127. EITEM ER GWYBODAETH: CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU – CYNLLUN RHEILFFYRDD 2025-28**

Cyfeiriodd y Maer at yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), er gwybodaeth i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Cynllun Rheilffyrdd.*

**128. EITEM ER GWYBODAETH: SYMIAU CYMUDOL CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod, gan gynghori ar y symiau ar gael ledled y sir, ac at y £22,248.21 ar gael i geisiadau o'r Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y wybodaeth.*

**129. EITEM ER GWYBODAETH: YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS LLEOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr ymgynghoriad uchod gan Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ac awgrymodd fod yr aelodau'n ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ac yn eu hanfon ato erbyn dydd Llun, 24 Chwefror, er mwyn iddo gwblhau'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor Tref, gan gyfleu barn a sylwadau'r mwyafrif.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn anfon neges e-bost yn cynnwys fersiwn Word o'r ffurflen at yr holl gynghorwyr y diwrnod canlynol.*

**130. SESIWN HOLI CWESTIYNAU**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

**131. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**132. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL: GRŴP CYSWLLT Y RHYL**

Hysbysodd Clerc y Dref ynghylch gwahoddiad gan Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r Cyngor Tref benodi dau aelod i wasanaethu ar Grŵp Cyswllt y Rhyl (copïau o'r gylch gorchwyl a'r agenda wedi'u dosbarthu gyda'r agenda).

Cynghorodd Clerc y Dref, yn ei swyddogaeth fel cynrychiolydd penodedig y Cyngor Tref ar y Bwrdd Ffyniant Bro, ei fod wedi gofyn i'r Cynghorydd A. J. Rutherford fod yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp, ar ddydd Llun, 17 Chwefror, i wylio'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Rutherford ei fod wedi bod yn y cyfarfod a rhoddodd drosolwg cryno.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorwyr A. J. Rutherford ac A. Walker yn aelodau'r Grŵp Cyswllt.*

**133. CYFARFOD ANFFURFIOL Y CYNGOR**

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai cyfarfod anffurfiol y Cyngor yn cael ei gynnal yn union ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 5 Mawrth 2025.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r dyddiad.*

**134. EITEM YCHWANEGOL: Y SEFYDLIAD**

Cyflwynodd Clerc y Dref amlen i'r Maer, a oedd yn cynnwys ei ymddiswyddiad ffurfiol o'r Cyngor Tref, yn rhoi'r cyfnod rhybudd gofynnol o dri mis.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y llythyr ymddiswyddiad a throsglwyddo ymdrin â llenwi'r swydd wag i'r Pwyllgor Staffio, i wneud argymhellion i'r Cyngor.*

**135. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..